

Miriam y Berl Rian. Rhamant: adeg Cwyp Jerusalem

Yn y flwyddyn 1904 cyhoeddwyd *Miriam - Y Berl Rian*, 118 t.t., sef rhydd-gyfieithiad i'r Gymraeg gan y Parch. D. O. Davies, Llanddeiniolen, o'r llyfr *Pearl-Maiden*, un o greadigaethau yr ysgrifennwr toreithog, a'r nofelydd Seisnig, Henry Rider Haggard (1856-1925). Un o Neuadd Orllewinol Bradenham, Norfolk, Lloegr, ydoedd Haggard, a theithydd o fri. Ymhlith ei nofelau enwocaf gellir rhestru *King Solomon's Mines*, (1885), a *She*, (1887). Ar yr 2ail o fis Mawrth, y flwyddyn 1903, cyhoeddodd Gwasg Longman, Llundain, Lloegr, waith Haggard, nofel o'i eiddo'n dwyn y teitl *Pearl-Maiden*. Ymhen blwyddyn, cyhoeddwyd rhydd-gyfieithiad y Parch. D. O. Davies, a hynny gan Gwmni y Wasg Eglwysig Gymreig, Llanbedr Pont Steffan, Ceredigion. Ond pwy ydoedd y Parch. D. O. Davies?

Ei enw'n llawn oedd Daniel Owen Davies. Yn y flwyddyn 1904 ef oedd rheithor plwyf Llanddeiniolen. Beth arall, yn wir, wyddom amdano? Sut mae mynd ati i ganfod ffynonellau? Ni chofnodir dim byd oll amdano'n *Y Bywgraffiadur Cymreig* ac felly dyma fynd ati i chwilota yn y *Biographical Dictionary of the Bishops and Clergy of the Diocese of Bangor from the Reformation to the Reconstitution* gan Richard Rhys Hughes Rhan 1, (Abel-Davies), 1932, sydd ar gael yn Llyfrgell y Brifysgol ym Mangor ac ar dudalen 87 cofnodir fel a ganlyn:- DAVIES, Daniel Owen:- (Cyfieithiad): *Addysgwyd yng Ngholeg St. Bees: ciwrad ym mhlwyf Deneio, (Pwllheli), 1868-1870; ciwrad ym mhlwyf Llanbeblig, (Caernarfon), 1870-1873; ciwrad ym mhlwyf Llanrhaeadr Dyffryn Chwyd yn y flwyddyn 1893; ficer plwyf Llanddeiniolen yn ystod y blynyddoedd 1873-1884; rheithor plwyf Llanddeiniolen rhwng 1873-1914. Felly, tra'n rheithor plwyf Llanddeiniolen yr aeth Daniel Owen Davies ati i led-gyfieithu llyfr Haggard, sef *Pearl-Maiden* i'r Gymraeg. Ebe R. R. Hughes: *Bu farw D. O. Davies Ebrill 6ed, 1914, a chladdwyd ef ym mynwent Eglwys plwyf Llanddeiniolen. Nodir i'r 'oll a gynhwysir yn 'Miriam' ymddangos, cyn y flwyddyn 1904, fel cyfres, a oedd hefo'r teitl 'Y Perl Riant, yn Y Llan a'r Dywysogaeth, newyddiadur wythnosol yr Eglwys.**

Claddu'r Parch. D. O. Davies

Canolbwyntiwyd nesaf ar ddyddiad ei farwolaeth, sef Ebrill 6ed, 1914. Byddai ar gael gofnodion yng nghylchgronau a newyddiaduron. Ceir yn Yr Haul (16/182), mis Ebrill, ar dud. 128 *'Bangor: Mae'r Parch D. O. Davies, Rheithor Llanddeiniolen, wedi ymddiswyddo ac yntau yno ers 1884'*, ac olrhainir hanes ei yrfa Eglwysig. Y mae Yr Haul (16/183), Mai t.160, yn cynnwys hanes claddu'r Parch. D. O. Davies ac yn *Y Llan a'r Dywysogaeth* Ebrill 17eg t.1 col. 3-4, a thud.7, col. 2, cynhwysir manylion amdano ar ffurf teyrngedau, a ffotograff du a gwyn aneglur braidd ohono.



Wyneb-ddalen : Miriam

Yr Haul, (16/183) mis Mai:-

Dydd Sadwrn, Ebrill 11eg, priddwyd gwedillion marwol y diweddar Barch. D. O. Davies. Brodor o Penmaenmawr oedd Mr. Davies. Bu yn gwasanaethu yn Llanfairfechan fel ysgolfeistr am flynyddoedd.

Llyfr Log yn datgelu mwy o wybodaeth

Hyd yma, ni wnes fynd ar drywydd ei hanes fel athro, ond tybiaf y bydd Llyfr Log yr Ysgol, yn Llanfairfechan, efallai'n datgelu mwy-fyth eto am D. O. Davies. Dyma'r cyfnod y cyfarfu â gwraig ifanc, a ddaeth yn briod iddo. Pryd a lle y priodasent? Yn dilyn ei farwolaeth ceir y canlynol:-

*Mae'r Parch. Edwin R. Hughes, curad Penisarwaen, wedi ei ddyrchafu gan yr Arglwydd Ganghellydd i Reithoriaeth Llanddeiniolen.**

* Cadarnheir hyn yn *Y Genedl Gymreig* Ebrill 14eg, 1914 t.5 col.6 dan y pennawd Glasgoed ble dywedir, 'hyderwn y bydd yn olynydd tawel, a theilwng i'r diweddar reithor.'

Y Llan a'r Dywysogaeth Ebrill 17eg:-

...swyn personoliaeth D. O. Davies... Nid oedd yn ysgolor mawr yn ystyr bendant y gair, ond yr oedd yn feddylwr cryf ac eofn.... Gellid ymddiried bob amser yn ei onestrwydd. ... dywedai y gwir plaen heb betruso, ond ei lefaru mewn caraid y byddai yn wastad...

Nawdd y nef fo ar ei anwyliaid sydd mewn galar yn enwedig ei fab, y Parch. W. A. Davies, M.A., ficer Ponsonby, Cumberland, a'i ferch, Miss Davies, yr hon ...a weinyddodd iddo gyda'r fath ofal caruaid yn ei hen ddyddiau.

Diddorol nodi bod **William**, mab D. O. Davies, yn ficer plwyf, a oedd heb fod ymhell o'r Coleg hyfforddi offeiriad Eglwys Loegr bryd hynny, yn St. Bees, ble bu ei dad D. O. yn fyfyrwr. Dyma sialens bellach, sef dod o hyd yn union pryd y bu i **William** farw, a ble y'i claddwyd ac yn ogystal olrhain rhyw fymryn o'i hanes. Mewn hyn o beth, disgwylir atebion ar ffurf llythyr o Lyfrgell Carlisle.

Fel y gwelir, yn y flwyddyn 1914 y mae gennym, enw mab, a merch di-enw, ond nid gwraig na mam. O bosib, dengys hyn ei bod hi eisoes wedi marw.

Ei throi hi wedyn am yr Archifdy yng Nghaernarfon ac yng *Nghyfrifiad Llanddeiniolen* y flwyddyn 1891, taro ar y canlynol:-

Rhif 6

Y Rheithordy Ganed Oedran

Daniel Owen Davies	55	Rheithor	Penmaenmawr
Margaret Davies	59		Llanfairfechan
Lucy Jane Davies	26		Llanfairfechan
William Arthur Davies	22		Colwyn

Enwir y ferch, sef **Lucy Jane**. Yng *Nghyfrifiad Llanddeiniolen* y flwyddyn 1901 y mae Daniel Owen Davies y flwyddyn 1901 y mae Daniel Owen Davies a **Margaret** ei wraig yn parhau i fyw'n y Rheithordy, ond nid yw **Lucy Jane** na Wiliam Arthur, eu plant, yn byw adref hefo eu rhieni. Dalier sylw ar Fan Geni D. O. D. Ie, Dwygyfylchi, a bydd yn rhaid mynd ar drywydd hyn, ond yn gyntaf mae'n ofynnol dyfod o hyd i ddyddiad marwolaeth **Margaret** Davies.

Mae'n amlwg iddi farw rywdro rhwng y blynyddoedd 1901 ac 1914. Archwilir y Fynegai sydd ar gael yn fiche *Archifau Mynwentydd*, a chanfod cofnod am Margaret Davies ac iddi farw ar y 15ed dydd o'r mis bach y flwyddyn 1912. Ni wnes daro ar ddim byd arall amdani, o ran hanes ei chladdu nac unrhyw deyrngedu yn newyddiaduron y cyfnod. Hyd yma, ni lwyddais i leoli cofnod ei bedyddio yn Llanfairfechan ac felly ni wyddys enwau ei rhieni.

Ffenestr a chloch wedi'u cysegru er cof am D. O. Davies

D. O. ac M. Davies: oddi wrth y cofnodion oedran yng *Nghyfrifiad Llanddeiniolen*, (1891), gellir clandro symiau ynghylch eu dyddiadau geni a'u plwyfi genedigol. Yn yr *Archifau Mynwentydd*, ceir map o'r fynwent eglwys yn Llanddeiniolen, sy'n lleoli'n systematig union leoliadau'r beddau. Y mae'r un ffynhonnell amrhisiadwy, hefyd, yn rhestru cofebau sydd ar gael tu mewn i'r eglwys ac yn eu plith ceir maen-goffa sy'n talu gwrogaeth i Daniel Owen Davies ac Edwin Edward Hughes, a bod ffenestr a chloch yr eglwys wedi eu cysegru er cof am D. O. Davies.

Pwy oedd ei rieni? Yn Archifdy Caernarfon ceir yng *Nghofrestri Bedyddiadau plwyf Dwygyfylchi 1813-1867* (XPE/13/1) y canlynol, (cyfieithiad):- *Hydref 4ydd, 1835 O.* (Parhâd ar dudalen 19)